

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Teitl: Canllawiau ar gomisiynu'r Gwasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru	Rhif Cyfeirnod yr Asesiad: 03/03/2018				
Enw'r unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen:	Zoe Holland				
Dyddiad:	19/02/2018				
Arweinydd polisi:	Christine Grimshaw				
Manylion cyswllt:	03000 257974				
Math o Raglen/Prosiect <input checked="" type="checkbox"/> Polisi <input type="checkbox"/> Prosiect neu raglen <input type="checkbox"/> Deddfwriaeth <input type="checkbox"/> Ymchwil, gwerthusiad <input type="checkbox"/> Grant <input type="checkbox"/> Gwasanaethau <input type="checkbox"/> Newid busnes <input type="checkbox"/> Contractau, tendrau <input type="checkbox"/> Seilwaith <input type="checkbox"/> Adeiladu, Cyfalaf <input type="checkbox"/> TGCh <input type="checkbox"/> Arall (Nodwch isod)					
Costau: Beth a ragwelir y bydd cost oes gyfan y rhaglen/prosiect? Os yn llai na £25k, nid oes angen Asesiad llawn bob tro (gweler y canllawiau).					
O dan £25k	£25 - £49k	£50 - £249k	£250k - £1miliwn	Dros £1miliwn	
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	
O'r uchod, a oes unrhyw gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r iaith Gymraeg? Dim costau'n uniongyrchol gysylltiedig â'r iaith Gymraeg					
Pa mor hir y disgwylir i'r rhaglen/prosiect redeg?					
Hyd at 1 flwyddyn	Hyd at 2 flynedd	Hyd at 5 mlynedd	Hyd at 10 mlynedd	Dros 10 mlynedd	Anhysbys
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y rhaglen/prosiect: Cyhoeddi canllawiau drafft – Mawrth 2018					

CAM 1: CYNLLUNIO

Beth yw nodau ac amcanion y polisi? Beth yw'r canlyniadau a ddymunir/beth sy'n angenrheidiol gan y rhaglen er mwyn iddi fod yn 'llwyddiant'?

Mae Adran 15 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf") yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol i awdurdodau perthnasol (fel y'u diffinnir yn y Ddeddf) ar sut dylai'r awdurdodau arfer eu swyddogaethau gyda'r bwriad o gyfrannu at bwrpas y Ddeddf.

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu defnyddio eu pŵer i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol, awdurdodau tân ac achub ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru i hyrwyddo comisiynu cydweithredol o ansawdd uchel sy'n darparu gwasanaethau mwy cyson ac effeithiol i atal Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) ac amddiffyn a chynorthwyo dioddefwyr ledled Cymru.

Bydd y canllawiau yn darparu fframwaith ar gyfer comisiynu gwasanaethau VAWDASV i ddiwallu anghenion yn effeithiol a theg ledled Cymru drwy alluogi creu partneriaethau VAWDASV cydweithredol rhanbarthol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau cysondeb y ddarpariaeth ar draws y wlad gyfan, a chyfrannu at gyflawni Amcan 6 (Rhoi mynediad cyfartal i ddioddefwyr at wasanaethau ledled Cymru, a'r rheini'n wasanaethau holistaidd o ansawdd uchel y darperir adnoddau priodol ar eu cyfer, sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n cael eu harwain gan anghenion ac sy'n ymatebol i rywedd) yn Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar VAWDASV: 2016- 2021.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiadau blynyddol am y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r amcanion yn y Strategaeth Genedlaethol a chyflawniadau tuag at bwrpas y Ddeddf, yn ogystal â chyhoeddi dangosyddion cenedlaethol y gellir eu defnyddio i fesur cynnydd cenedlaethol ar y cyd wrth gyflawni pwrpas y Ddeddf. Cyhoeddwyd yr adroddiad cynnydd cyntaf ym mis Ionawr 2018.

Pa ddewisiadau polisi sydd wedi'u hystyried?

a

Beth fydd yr effeithiau os *na* fydd y polisi'n cael ei weithredu?

Mae'r swyddogion wedi ystyried dau ddewis:

- Gwneud dim: er bod sawl enghraifft o arfer da cyfredol, nid oes canllawiau cenedlaethol ar hyn o bryd i sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir yn gyson ledled Cymru
- Cyhoeddi canllawiau statudol i hyrwyddo comisiynu cydweithredol o ansawdd uchel sy'n darparu gwasanaethau mwy cyson ac effeithiol i atal VAWDASV a diogelu a chynorthwyo dioddefwyr ledled Cymru.

Bydd cyflwyno'r canllawiau yn cyfrannu at gyflawni ein hamcanion a nodir yn y Strategaeth Genedlaethol ar VAWDASV.

A yw'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg – [Cymraeg2050 – miliwn o siaradwyr?](#)

Nid oes cysylltiadau arwyddocaol rhwng y canllawiau comisiynu a'r Strategaeth Iaith Gymraeg

Beth yw'r effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) ar yr iaith Gymraeg yr ydych wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?

h.y. siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg, addysg Gymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg?

Amlygir pwysigrwydd ystyried materion yn ymwneud â'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y canllawiau, gan sicrhau bod cefnogaeth i ddiodefnyddwyr ar gael yn Gymraeg i'r rhai sydd angen, ac sy'n dewis, derbyn y gefnogaeth hon yn Gymraeg.

Er na ragwelir unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg, yn niweidiol na chadarnhaol, o ganlyniad i gyhoeddi'r canllawiau terfynol, bydd y ddogfen ymgynghori yn cynnwys y cwestiwn – “Pa gyfleoedd mae'r canllawiau hyn yn eu rhoi i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg? A oes gennych chi bryderon y gallai'r canllawiau hyn gael effaith andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg”.

Pwy yw'r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?

Gall materion VAWDASV effeithio ar unrhyw un yng Nghymru, ond y prif rhanddeiliaid ar gyfer y canllawiau yw:

- Yr awdurdodau perthnasol o dan y Ddeddf (awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol, awdurdodau tân ac achub ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru) ac awdurdodau cyfrifol fel y'u diffinnir gan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998
- Comisiynwyr gwasanaeth cyfredol ac yn y dyfodol ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol
- Darparwyr gwasanaethau - statudol ac anstatudol - arbenigol ac anarbenigol
- Y rhai sydd â buddiant mewn darparu cyllid ar gyfer VAWDASV a gwasanaethau cysylltiedig yng Nghymru

Mae nifer o'r rhanddeiliaid hyn yn gyrrff statudol

Pan na chwblhawyd asesiad, neu pan na chanfuwyd effeithiau, nodwch gyfrif llawn at ddibenion cadw cofnod. (Gellid defnyddio hwn yn y Tribiwnlys Iaith Gymraeg yn y dyfodol)

Pa gamau gweithredu/gwaith pellach sydd wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?

e.e. gofynion data, angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgysylltu allanol â grwpiau Cymraeg, rhestru rhanddeiliaid neu ymgynghori, cysylltu ag Uned y Gymraeg am gyngor)?

Bydd y canllawiau drafft yn cael eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghori ym mis Mawrth 2018. Caiff yr asesiad effaith hwn ei adolygu yn dilyn yr ymgynghoriad

CAM 2 – NODI AC ASESU EFFEITHIAU

Crynodeb o'r Asesiad Effaith

Crynowch yr asesiad manwl a gynhaliwyd ynghyd â'r sgoriau a ddynodwyd.

Effeithiau cadarnhaol:

Gallai'r ganllawiau comisiynu gael effeithiau cadarnhaol cyfyngedig ar yr iaith Gymraeg, gan gynnwys effaith gadarnhaol ar y rhai sydd eisiau derbyn gwasanaethau VAWDASV drwy gyfrwng y Gymraeg.
Bydd yr awdurdodau perthnasol, dros amser, yn atebol i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol iddynt fel sefydliadau unigol. Gan hynny, bydd angen iddynt ddarparu gwasanaethau dwyieithog yn unol â'u cyfrifoldebau o dan eu Safonau. Mae'r Canllawiau hefyd yn amlygu'r angen i gynnwys ystyriaethau ynghylch y Gymraeg mewn unrhyw broses gaffael sy'n ymwneud â darparu gwasanaeth VAWDASV.

Effeithiau negyddol:

Nid yw'r canllawiau comisiynu yn cael unrhyw effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg.

Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. statws, y defnydd o wasanaethau Cymraeg, y defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle?

Na.

Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd, gan gynnwys proffil demograffig, wrth ystyried yr effeithiau:

Gall 562,016 (19%) o ddinasyddion Cymru siarad Cymraeg yn ôl cyfrifiad 2011, ond mae nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn y Sector Cyhoeddus yn uwch na chyfartaledd y boblogaeth. Mae'r ystadegau a ddefnyddir wrth lunio'r asesiad hwn i'w gweld isod.

	Siarad Cymraeg	Ddim yn gallu siarad Cymraeg	Y cyfan
Cyhoeddus	30.3%	69.7%	100.0%
Preifat	21.6%	78.4%	100.0%
Gwirfoddol	28.5%	71.5%	100.0%
Ddim ar gael	26.6%	73.4%	100.0%
Pob Sector	24.2%	75.8%	100.0%

Ffynhonnell: Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth 2016, Chwarter 1

Beth yw'r effaith gyffredinol debygol ar yr iaith Gymraeg os bydd y polisi hwn yn cael

Cadarnhaol:

Negyddol:

ei ddatblygu?		Niwtral: <input checked="" type="checkbox"/>
		Anhysbys: <input type="checkbox"/>
Penderfyniad yn dilyn yr Asesiad	1. Dim newid sylweddol	<input checked="" type="checkbox"/>
	2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau	<input type="checkbox"/>
	3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru	<input type="checkbox"/>
	4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno	<input type="checkbox"/>
Os ydych wedi ateb 2, 3 neu 4 uchod, atebwch y canlynol:		
Sut y byddwch chi'n ymdrin â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau i'r Gymraeg? Manylion am fesurau lliniaru/pwyntiau gweithredu/dewisiadau amgen sydd wedi'u mabwysiadu er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol:		
N/a		
Os ydych yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau ydych yn dymuno gofyn i randdeiliaid am yr Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg a materion yn ymwneud â'r Gymraeg?		
Bydd yr Asesiad Effaith hwn ar y Gymraeg yn cael ei gyhoeddi fel rhan o'r ymgynghoriad, a bydd cwestiwn penodol yn cael ei ofyn ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg (gweler uchod)		
CAM 3: CAMAU AR ÔL YMGYNGHORI A PHARATOI AR GYFER CYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO		
Ar ôl ymgynghori, pa newidiadau ydych wedi'u gwneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn ymwneud â'r Gymraeg?		
Sut byddwch yn monitro'r effeithiau parhaus wrth weithredu'r polisi?		
Amlinellwch sut byddwch yn parhau i nodi'r effeithiau wrth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol?		

Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau parhaus gwerthusiadau, effeithiau sy'n dod i'r amlwg

4. Datganiad

Arweinydd polisi:

**Dileer fel y bo'n briodol:*

***Mae'r polisi hwn / Nid yw'r polisi hwn yn effeithio ar yr iaith Gymraeg. Pan ganfuwyd effeithiau negyddol neu gyfleoedd a gollwyd, mae'r diwygiadau a'r camau priodol wedi eu rhoi ar waith.**

Enw: Christine Grimshaw

Adran: EPS - Tîm VAWDASV

Dyddiad(au): 20/2/18

Llofnod:

Dyddiadau adolygu:

ARDYSTIAD AC ADOLYGIAD YR UWCH SWYDDOG CYFRIFOL

Rwyf yn fodlon bod yr Aseiad o Effaith ar y Gymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen/prosiect yn y cam hwn o'r datblygiad. Trwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau'r Gymraeg wedi cael y sylw priodol. Byddaf yn ail-asesu'r rhaglen/prosiect ar adegau allweddol trwy oes y rhaglen/prosiect, gan gynnwys adolygiadau polisi.

Llofnodwyd Amelia John
(Uwch Berchennog Cyfrifol)

Dyddiad

Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad adolygu
Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad adolygu
Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad adolygu